

Safleoedd Arddangos Cig Coch Cyswllt Ffermio

BODWI

Safle Arddangos: BODWI, Mynytho, Pwllheli

Swyddog Technegol: Gwion Parry

Teitl y Prosiect:

Adolygu'r fenter teirw biff

Cyflwyniad i'r prosiect:

Ar hyn o bryd mae Bodwi yn rhedeg menter pesgi teirw biff o'u buches fagu Stabiliser pedigree. Ar hyn o bryd mae'r fferm yn pesgi hanner y lloeau gwryw gartref ar ddwysfwd wedi ei brynu i mewn, a'r hanner arall ar gontract i lot porthi yn Selby, Swydd Efrog.

Gan fod prisiau dwysfwd a biff wedi amrywio yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n allweddol bod ffermwyr biff yn asesu effeithlonrwydd eu busnes, a dod o hyd i ffyrdd posibl o leihau costau cynhyrchu.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar leihau cost cynhyrchu yn y fenter teirw biff blwydd trwy edrych ar gael canran uwch o'r diet o gnydau a dyfir gartref, gan fanteisio ar rinweddau genetig yr anifeiliaid. Byddwn yn cofnodi cost tyfu cnydau penodol yn ogystal ag effaith y newid ar gyfradd stocio'r fferm a'i rheolaeth dros y tair blynedd nesaf.

Amcanion y Prosiect:

Prif amcan y prosiect yw cynnal effeithlonrwydd y fenter teirw biff wrth drosi porthiant a lleihau cost y system. Bydd yr holl fewnbynau yn cael eu

hadolygu, a bydd tyfu porthiant gartref yn cael ei dreialu trwy dyfu cnydau tir â'r gyda'r nod o brynu llai o ddwysfwd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cael y rhan fwyaf o'r protein a'r egni gofynnol i gynhyrchu teirw biff o gnydau wedi eu tyfu gartref
- Lleihau faint o ddwysfwd a brynwyd



LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

BLWYDDYN 1

Byddwn yn defnyddio'r flwyddyn gyntaf fel meincnod er mwyn cael Dangosyddion Perfformiad Allweddol a dod o hyd i feysydd lle gallwn wella'r system bresennol.

BLWYDDYN 2

Byddwn yn cyflwyno barlys wedi ei dyfu gartref i'r diet pesgi ac yn cyfrifo'r effaith ariannol y bydd yn ei gael ar gost cynhyrchu ac hefyd yr effaith negyddol y bydd yn ei gael ar leihau'r gyfradd stocio er mwyn rhyddhau tir i dyfu barlys.

BLWYDDYN 3

Byddwn yn edrych yn ofalus ar y data a gasglwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn ymgorffori'r wybodaeth a gafwyd yn y strategaeth reoli yn Bodwi. Gall hyn fod yn gynnydd yn y cnydau a dyfir gartref, tyfu cnydau gwahanol i gyflenwi'r protein i'r diet, neu hyd yn oed ymdrin ag unrhyw broblemau iechyd a all ddod i'r amlwg yn ystod dwy flynedd gyntaf y prosiect.